



Cymru
Global

Climate.
Cymru

Cydlunydd Eiriolaeth ac Ymgychu

DISGRIFIAD SWYDD

Cyflogwyd gan:	Cymru Global (y sefydliad sy'n cynnal Climate Cymru)
Yn atebol i:	Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth
Cyflog a phensiwn:	£34,892 y flwyddyn, pro rata Cofrestru awtomatig yn ein cynllun pensiwn. Bydd Cymru Global yn cyfateb eich cyfraniad hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog gros (isafswm o 4%)
Telerau cyflogaeth:	Cytundeb tymor penodol o 11 mis. SYLWER: Bwriedir i'r rôl hon barhau y tu hwnt i gyfnod y cytundeb, yn amodol ar gyllid yn y dyfodol. Mae llwybrau ar waith i sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol.
Lleoliad:	Gweithio o bell (gyda'r opsiwn o weithio hybrid yng Nghymru Global, y Deml Heddwch, Caerdydd) SYLWER: Bydd mynychu digwyddiadau, cyfarfodydd a gweithgareddau yng Nghaerdydd yn rhan o'r rôl, gyda gofynion teithio achlysurol mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU.
Oriau:	3 diwrnod yr wythnos (22.2 awr yr wythnos) Mae polisïau gweithio hyblyg a TOIL ar waith.
Lwfans gwyliau:	36 diwrnod, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata.
Teithio:	Os bydd angen i chi deithio fel rhan o'r swydd, bydd treuliau'n cael eu talu.

Ynghylch Climate Cymru

Mae [Climate Cymru](#) yn fudiad o filoedd o unigolion, ac yn rhwydwaith o gannoedd o sefydliadau o bob sector yng Nghymru, sydd wedi cael eu dwyn ynghyd trwy gyfrwng gwerthoedd a rennir, a chydabyddiaeth bod yr argyfwng hinsawdd a natur yn gofyn am weithredu brys a theg. Rydym yn credu y dylai gweithredu gael ei lywio gan wyddoniaeth a lleisiau pobl ar draws Cymru.

Cynhelir Climate Cymru gan Cymru Global (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn flaenorol). Mae Cymru Global yn elusen sy'n ysbrydoli pobl yng Nghymru i ddysgu am faterion byd-eang a gweithredu arnynt. Gweledigaeth Cymru Global yw bod pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd tecach a mwy heddychlon.

Mae Climate Cymru yn canolbwyntio ar effaith, yn ddeinamig, ac yn gyfrwng pwerus dros newid yng nghymdeithas Cymru. Rydym yn gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Rhoi pwysau ar y rheini sydd â phŵer i weithredu'n gadarn.
- Ymgysylltu'n gynhyrchiol â Llywodraeth Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod lleisiau o ar draws Cymru yn cael eu clywed a'u cynrychioli
- Ysbrydoli a chysylltu ein rhwydwaith.
- Ehangu a chyflymu gwaith ein partneriaid
- Rhannu gwybodaeth bwysig a chyfleoedd gyda'n rhwydwaith a'r cyhoedd ehangach
- Dysgu gan Gymdeithas yng Nghymru, a thu hwnt
- Datblygu cefnogaeth gyhoeddus eang ar gyfer gweithredu
- Cynrychioli lleisiau a sefydliadau Cymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Mae rhan fawr o waith Climate Cymru yn cael ei wneud gan grŵp o staff a gwirfoddolwyr, wedi'u trefnu'n bedwar tîm bach:

1. **Meithrin y mudiad:** Gwasanaethu, cysylltu, ysbrydoli, clirio rhwystrau a dysgu oddi wrth fudiad mawr ac amrywiol o sefydliadau ac unigolion, gan gynnwys cynnal ystod o grwpiau a mannau ymgynnull â themau benodol.
2. **Cyfathrebu a newid naratif:** Adeiladu seilwaith cyfathrebu, adrodd straeon, uwchsgilio'r mudiad a chyflawni gwaith newid naratif yn seiliedig ar werthoedd.
3. **Eiriolaeth:** Gwleidyddiaeth, polisi ac ymgyrchoedd – gwaith ar y cyd dros Climate Cymru a chefnogi partneriaid i gyflawni eu nodau eirioli unigol.
4. **Ecosystem cyllid:** Amrywiaeth o ymyriadau i helpu i drwsio tirlun cyllid diffygiol i Gymru ac i'r mudiad.

Crynodeb y Rôl

Bydd y Cydlynnydd Eiriolaeth ac Ymgyrchu yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu a chyflawni gweithgaredd eiriolaeth ac ymgyrchu Hinsawdd Cymru.

Bydd y rôl yn cynnwys cefnogi'r gwaith o gyflwyno system gydlynol o ymyriadau dan arweiniad y Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth. Mae'r system o ymyriadau wedi'i chynllunio i gryfhau cyfreithlondeb cyhoeddus ar gyfer gweithredu dros yr hinsawdd, cydlynu eiriolaeth â

mudiadau Cymru a'r DU, ochr yn ochr â gwella ansawdd y disgwrs cyhoeddus a gwleidyddol ar newid hinsawdd yng Nghymru.

Bydd y rôl yn cynnwys trefnu digwyddiadau, hwyluso ymgysylltiad democrataidd a helpu i gyflawni cam nesaf ymgyrch [Cymru Gyda'n Gilydd](#).

Fel rhwydwaith amrywiol ac eang, mae llawer o'r gwaith ymarferol yn cynnwys trefnu, hwyluso a chyfathrebu â phartneriaid yn y mudiad i ysbrydoli gweithredu ar y cyd a deall yr anghenion amrywiol.

Cyfrifoldebau penodol ar gyfer y rôl

Mae gan y Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth rôl strategol ar lefel uwch sy'n cwmpasu maes eang – gan gynnwys goruchwyllo'r mudiad hinsawdd yng Nghymru a llunio ymateb strategol o ran eiriolaeth, polisi ac ymgyrchu i gyd-destun sy'n esblygu. Bydd y rôl Cydlynnydd Eiriolaeth ac Ymgyrchu yn gweithio'n agos i gefnogi'r Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth drwy gyflawni elfennau allweddol o'r strategaeth a lleihau'r baich gweinyddol a chyflawni.

Gweithgaredd ymgyrchu

- Cydlynu gweithgareddau ymgyrchu sydd â'r nod o hwyluso ymgysylltiad democrataidd, gan gynnwys gweithred ddigidol sy'n hwyluso cysylltiad ystyrlon rhwng swyddogion etholedig ac etholwyr.
- Gweithio'n agos gyda Phennaeth Polisi ac Eiriolaeth i gydlynu cyflawni cam nesaf ymgyrch Cymru Gyda'n Gilydd, gan gynnwys gweithgareddau ymgyrchu ynghylch ymrwymïadau ynni adnewyddadwy allweddol Llywodraeth Cymru.

Trefnu ac ymgysylltu â phartneriaid

- Gweithio gyda'r tîm Adeiladu Mudiad i ysgogi partneriaid a gwirfoddolwyr o gwmpas adegau ac ymgyrchoedd allweddol.
- Cefnogaeth weinyddol ymarferol i uwch staff, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd ac ymgysylltu â phartneriaid - er enghraifft, anfon gwahoddiadau, hwyluso cyfarfodydd a chydlynu drwy e-bost.
- Ar adegau cynrychioli Climate Cymru o fewn rhwydweithiau, cynghreiriau a fforymau allanol i hyrwyddo cydweithio a rhannu cyfleoedd i gydweithio â'r tîm ehangach.

Digwyddiadau a rheolaeth

- Chwarae rhan arweiniol wrth gydlynu ein digwyddiad lobïo torfol yn y Senedd yn 2027.
- Rheoli logisteg digwyddiadau, gan gynnwys gwahoddiadau, cofrestru, adnoddau a darpariaeth arlwy, a sicrhau bod pob digwyddiad mor hygyrch â phosibl.
- Cefnogi hyrwyddo a chyfathrebu ynghylch digwyddiadau, gan weithio'n agos gyda'r tîm cyfathrebu i sicrhau'r lefel uchaf o gyfranogiad ac ymgysylltiad.
- Cydlynu cynllunio a chyflwyno digwyddiadau ymgyrchu eraill, cyfarfodydd, gweithdai a gweithgareddau eraill, gan sicrhau eu bod wedi'u trefnu'n dda ac yn cael effaith sylweddol.

Cymorth i'r Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth

Rôl gefnogol yn y gweithgareddau canlynol sy'n cael eu harwain gan y Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth:

- Datblygu strategaeth eirioli ac ymgyrchu Climate Cymru.
- Cynnull a hwyluso mewnbwn gan bartneriaid i ymyriadau polisi ac ymgynghoriadau
- Ymgysylltu'n gynhyrchiol â swyddogion etholedig, Llywodraeth Cymru, gweision sifil a'u timau.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd o ansawdd uchel ar draws tirwedd wleidyddol, polisi a chymdeithas sifil Cymru.
- Cefnogi'r broses o ddod â phartneriaid at ei gilydd o amgylch blaenoriaethau eirioli a rennir.

Manyleb Person

Rydym yn chwilio am rywun sy'n angerddol dros greu Cymru decach a gwyrddach, ac sy'n deall pwysigrwydd gweithredu ar y cyd ac eiriolaeth effeithiol wrth sicrhau newid.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfuno profiad o ymgyrchu â'r gallu i feithrin perthnasoedd, gweithio ar y cyd a throï cyfleoedd strategol yn weithgareddau dylanwadu effeithiol.

Rhaid i ymgeiswyr ddangos y nodweddion canlynol drwy eu cysylltu â phrofiadau a chyflawniadau perthnasol yn y datganiad cais am swydd.

Gofynion hanfodol

1. Ymroddiad i weledigaeth a gwerthoedd sefydliadol Climate Cymru a Cymru Global.
2. Profiad o gyfrannu at ymgyrchoedd, eu cydlynu neu eu harwain
3. Ymrwymiad i gydweithio â phartneriaid, cynghreiriau neu rwydweithiau i gyflawni amcanion cyffredin.
4. Profiad o gynllunio a chyflwyno digwyddiadau neu weithgareddau (e.e. cyfarfodydd aml-bartner, cynadleddau, digwyddiadau ymgyrchu neu ddigwyddiadau lobiö).
5. Sgiliau trefnu a rheoli digwyddiadau rhagorol.

Gofynion dymunol

1. Rhuglder yn y Gymraeg, gyda'r gallu i ysgrifennu a chyflwyno cyfathrebiadau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.
2. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dirwedd wleidyddol a pholisi yng Nghymru.
3. Arbenigedd polisi technegol mewn meysydd perthnasol.
4. Perthnasoedd sefydledig â gwleidyddion, llunwyr polisi, arweinwyr y gymdeithas sifil, newyddiadurwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru sy'n berthnasol i genhadaeth Climate Cymru.
5. Profiad o ddefnyddio offer ymgyrchu/trefnu digidol (e.e. CRM, llwyfannau gweithredu, offer e-bost).
6. Profiad o weithio mewn, neu efo, timau cyfathrebu, i gyflawni nodau perthnasol (e.e. hyrwyddo gweithgareddau ymgyrch yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol).
7. Profiad o weithio o fewn neu ochr yn ochr â'r sectorau gwirfoddol, cymunedol neu amgylcheddol yng Nghymru.

Proses Ymgeisio

- Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen swyddogol Cais am Gyflogaeth Cymru Global, sydd ar gael yn [Swyddi Gwag - Cymru Global](#). Mae'r ffurflen efo brand Cymru Global, sef yr elusen gyfreithiol sy'n cynnal Climate Cymru.
- **Rhowch yr holl wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais gan na fyddwn yn ystyried CVs na llythyrau eglurhaol fel rhan o'r cais.**
- Dylai'r holl ymgeiswyr lenwi'r ffurflen Cyfle Cyfartal. Mae'r rhain yn cael eu gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais ar ôl eu derbyn, ac nid ydynt yn cael eu rhannu gyda'r panel sy'n llunio'r rhestr fer neu gyda'r panel gyfweld.
- Dylech anfon eich cais drwy e-bost i recruitment@cymru.global
- Cysylltwch os oes gennych unrhyw ofynion mynediad er mwyn gwneud cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **5yh, 8 Hydref 2026**.
- Mae cyfweiliadau wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 12 Hydref.
- Byddwn yn anfon e-bost i gydnabod derbyn ceisiadau gan yr holl ymgeiswyr. Os na fyddwch yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Ni allwn fod yn atebol am geisiadau nad ydynt yn cyrraedd atom, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.
- Os cewch eich dewis ar gyfer cyfweiliad, byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost. Byddwn yn cyfathrebu ag ymgeiswyr sydd wedi'u dewis ar amser sy'n gyfleus i bawb sy'n cymryd rhan.
- Ni fyddwn yn gofyn am unrhyw eirdaon nes bod cynnig amodol o gyflogaeth wedi cael ei wneud.
- Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael gwybod drwy e-bost.